



## CANLLAWIAU AR REOLI YMDDYGIAD HERIOL

Mae'n bosibl y bydd angen i staff / gwirfoddolwyr sy'n cyflwyno gweithgareddau pêl-droed i blant ddelio ag ymddygiad heriol plentyn o bryd i'w gilydd. Nod y canllawiau hyn yw hyrwyddo arfer da ac maent yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Lles y chwaraewyr yw'r brif ystyriaeth.
- Ni ddylai chwaraewyr byth fod yn destun unrhyw fath o driniaeth sy'n niweidiol, yn sarhaus, yn bychanu neu'n ddiraddiol.
- Dylid trafod yr anghenion penodol sydd gan blentyn (e.e. cyfathrebu, rheoli ymddygiad, dealltwriaeth ac ati) gyda'u rhiant / gofalwr a, lle bo hynny'n briodol, y plentyn, cyn i'r gweithgareddau ddechrau. Os yw hynny'n briodol, gall fod yn ddefnyddiol cofnodi manylion unrhyw gynllun neu ddull gweithredu y cytunwyd arno a darparu copi'au i bob parti.
- Dylid cefnogi pob plentyn i gymryd rhan. Dim ond pan mae popeth arall wedi methu ddylid ystyried gwahardd plentyn o weithgareddau, ac ar ôl i bob ymdrech i roi sylw i unrhyw her ddod i ben, o dan amgylchiadau eithriadol lle na ellir cynnal diogelwch y plentyn hwnnw neu blant eraill.

### Cynllunio Gweithgareddau

Dylai'r cynllunio ar gyfer gweithgareddau gynnwys ystyried a oes angen cefnogaeth neu oruchwyliaeth ychwanegol ar unrhyw blentyn dan sylw i gymryd rhan yn ddiogel. Dylai hyn roi sylw i'r canlynol:

- Asesiad o'r risg ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad y plentyn
- Cymarebau goruchwyllo priodol ac a ddylid cynyddu nifer yr oedolion
- Rhannu gwybodaeth i bawb / gwirfoddolwyr ar reoli unrhyw ymddygiad heriol er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu.
- Arbenigedd neu gefnogaeth arbenigol y gall fod ei angen gan ofalwyr neu asiantaethau allanol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan nodir y gall plentyn fod angen lefel o ymyriad corfforol i gymryd rhan yn ddiogel

### Cytuno ar Ymddygiad Derbyniol ac Annerbyniol

Dylai staff, gwirfoddolwyr, plant, pobl ifanc a rhieni / gofalwyr fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cytundeb ynghylch y canlynol:

- beth yw ymddygiad derbyniol ac annerbyniol (cod ymddygiad)
- yr ystod o sancsiynau y gellir eu defnyddio mewn ymateb i ymddygiad annerbyniol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol gwneud hyn ar ddechrau'r tymor. Dylai gynnwys safbwyntiau plant a phobl ifanc er mwyn annog eu cydweithrediad.
- Sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn deall y disgwyliadau o ran y plant, a gofyn iddynt gadarnhau hyn cyn unrhyw drip neu weithgaredd.

### Rheoli Ymddygiad Heriol

Wrth ymateb i ymddygiad heriol dylai'r ymateb bob amser fod fel a ganlyn:

- Yn gymesur â'r camau gweithredu rydych yn eu rheoli.
- Cael ei orfodi cyn gynted ag sy'n ymarferol.
- Ei egluro'n llawn i'r plentyn a'i rieni / gofalwyr.

Wrth ddelio â phlant sy'n arddangos ymddygiad negyddol neu heriol, gallai staff a gwirfoddolwyr ystyried yr opsiynau canlynol:

- Seibiant - o'r gweithgaredd, gwaith grŵp neu waith unigol.

- Gwneud iawn - y weithred neu'r broses o wneud iawn.
- Atgyfnerthu ymddygiad - gwobrau am ymddygiad da, canlyniadau am ymddygiad negyddol.
- Atal y sefyllfa rhag gwaethygu - siarad â'r plentyn a thynnu ei sylw oddi wrth ymddygiad heriol.
- Defnyddio 'contractau' neu gytundebau unigol ar gyfer dyfodol y plentyn neu gyfranogiad parhaus.
- Sancsiynau neu ganlyniadau e.e. colli sesiwn hyfforddi neu gêm.
- Gofyn am gefnogaeth ychwanegol / arbenigol drwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.
- Gwaharddiad dros dro neu barhaol.
- Mwy o oruchwyliaeth gan staff / gwirfoddolwyr.

Ni ddylid caniatáu'r canlynol byth fel ffordd o reoli ymddygiad plentyn:

- Cosb gorfforol neu fygythiad o hynny.
- Gwrthod siarad â'r plentyn neu ryngweithio ag ef.
- Ei amddifadu o fwyd, dŵr, mynediad i gyfleusterau newid neu doiledau neu gyfleusterau hanfodol eraill.
- Bygythiadau geiriol, gwawdio neu gywilyddio.

## Ymyriadau Corfforol

Dylai staff / gwirfoddolwyr ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio ymyriadau corfforol o gymharu â'r risgiau o beidio â defnyddio ymyriadau corfforol. Dylid ystyried y canlynol bob amser o ran defnydd o ymyriadau corfforol:

- Eu hosgoi oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol i atal plentyn rhag anafu ei hun neu eraill.
- Anelu at sicrhau canlyniad sydd er budd gorau'r plentyn y mae ei ymddygiad yn peri pryder uniongyrchol
- Ffurfio rhan o ddull ehangach o reoli ymddygiad heriol.
- Bod yn ganlyniad i benderfyniadau ymwybodol ac nid ymateb i rwystredigaeth oedolyn.
- Defnyddio'r grym lleiaf sydd ei angen i osgoi anaf i berson neu ddifrod difrifol i eiddo – ei ddefnyddio am y cyfnod byrraf o amser
- Eu defnyddio ar ôl rhoi cynnig ar bob strategaeth arall i ddechrau
- Cael eu cofnodi cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r ffurflen adrodd sefydliadol briodol a'r weithdrefn briodol. Dylid hysbysu'r rhieni bob amser yn dilyn digwyddiad lle bu'n rhaid i hyfforddwr / gwirfoddolwr ymyrryd yn gorfforol â'u plentyn.

Ni ddylai ymyriadau corfforol:

- Cynnwys cyswllt â'r pen-ôl, yr organau cenhedlu na'r bronnau.
- Cael ei ddefnyddio fel ffurf ar gosb.
- Cynnwys achosi poen

## Barn y plentyn

Dylid cynnal sesiwn dadfrifio amserol ar gyfer staff / gwirfoddolwyr, y plentyn a'r rhieni bob amser mewn amgylchedd tawel yn dilyn digwyddiad lle defnyddiwyd ymyriad corfforol. Mae'n bosibl y bydd angen i hyd yn oed blant nad ydynt wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r sefyllfa siarad am yr hyn y maent wedi'i weld. Dylid cynnal trafodaeth hefyd gyda'r plentyn a'r rhieni am anghenion y plentyn a chyfranogiad diogel parhaus yn y grŵp neu'r gweithgaredd.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y canllawiau hyn ac yn cytuno i ddilyn yr wybodaeth a nodir yn y ddogfen hon a chadw at ei hegwyddorion.

Enw: ..... Llofnodwyd: ..... Dyddiad: .....